Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

22 Mai 2008

Addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 oed

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi adroddiad heddiw yn galw am drefnu bod mwy o gyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer dysgwyr 14-19 oed. Mae'r arolygiaeth yn argymell y dylai ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant weithio gyda'i gilydd i wneud sesiynau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn fwy hygyrch i ddysgwyr. Mae Estyn hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru osod targedau ar gyfer rhwydweithiau 14-19 i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a monitro cynnydd yn erbyn y targedau hynny.

"Mae amrywiad sylweddol ledled Cymru yn nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr, hyd yn oed ymhlith awdurdodau sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn cael digon o gyfle i barhau â'u haddysg yn Gymraeg neu yn ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae angen i ddarparwyr wneud mwy i ddangos manteision dilyn cyrsiau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog i ddysgwyr", meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dywed Estyn er bod mwyafrif helaeth y cymwysterau cyffredinol ar gael yn Gymraeg, cyfran fechan iawn o'r hyn sydd ar gael yn Saesneg yw nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn Gymraeg. Hefyd, nid yw darparwyr a dysgwyr yn cael gwybodaeth lawn am y cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg na'r galw amdanynt gan eu cyflogwyr. Yn 2004-2005, dim ond nifer fach o ysgolion a cholegau a oedd yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn

pynciau lle mae'r galw am fedrau dwyieithog yn tueddu i fod yn uwch, fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, economeg, economeg y cartref ac astudiaethau'r cyfryngau.

Mae mwy a mwy o ysgolion uwchradd, colegau a darparwyr hyfforddiant yn hyrwyddo dwyieithrwydd ac yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddod i gysylltiad â'r Gymraeg a gwella eu medrau dwyieithog. Fodd bynnag, mae diffygion pwysig mewn darpariaeth ddwyieithog o hyd mewn bron i hanner yr ysgolion uwchradd a thros hanner y darparwyr hyfforddiant a arolygwyd yn 2005-2006 a 2006-2007.

Gall cost gymharol darpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn uchel gan fod nifer y dysgwyr yn fach. Mae cydweithredu rhwng darparwr yn hanfodol er mwyn ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd gost effeithiol. Gall darparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth gynnig y cyfleoedd gorau i ddisgyblion, gan leihau'r gost trwy gyflogi athrawon peripatetig, defnyddio offer fideo gynadledda, defnyddio adnoddau dysgu ar-lein a threfnu i ddysgwyr deithio i ddosbarthiadau mewn darparwr arall.

Prinder athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yw un o'r prif rwystrau rhag darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn yr un modd, mae prinder arholwyr a gwirwyr sydd â'r arbenigedd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr rhag ymestyn nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Er bod ystod yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn gwella, mae prinder deunyddiau fel gwerslyfrau yn rhwystr o hyd rhag cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau adnoddau cyfrwng Cymraeg ar-lein.

Mae nifer gynyddol o ddarparwyr yn cyflwyno addysgu dwyieithog fel ffordd o ymestyn yr hyn y gallant ei gynnig yn Gymraeg, o leiaf yn rhannol. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol yn ansawdd yr addysgu dwyieithog. Lle nad yw addysgu dwyieithog yn effeithiol, nid yw'r cynllunio a'r drefniadaeth ystafell ddosbarth yn aml yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae hyrwyddwyr dwyieithog, cyfnodau sabothol i wella medrau athrawon mewn addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a mentrau yn y rhwydweithiau 14-19, wedi dechrau effeithio ar wella addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Testun y cyngor yw ystod ac ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 14-19 oed, gan gynnwys y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu fel papur trafod yn hytrach nag adolygiad llawn. Mae'n nodi enghreifftiau o arfer dda ac yn disgrifio'r hyn sydd ei angen i wireddu dyheadau Llwybrau Dysgu 14-19 mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar adolygiad o'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gweithle. Mae'r dystiolaeth yn deillio o:

- ymweliadau â sampl o ddarparwyr yn y tri sector yn ystod tymor yr hydref 2007;
- adroddiadau Estyn ar ddarparwyr unigol a arolygwyd yn ystod 2005-2006 a 2006-2007;
- data yn ymwneud ag arolygu; a
- chynlluniau datblygu rhwydweithiau 14-19 lleol ar gyfer 2007-2008.

Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464